# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 23 Ionawr 2017

Amser: 14.30 - 15.11

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3893

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Huw Irranca-Davies AC (Cadeirydd)<br>Dai Lloyd AC<br>David Melding AC |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Dirprwy Glerc)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

View the meeting transcript (PDF 164KB) View as HTML (40KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dafydd Elis-Thomas a Nathan Gill. Ni chafwyd dirprwyon.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 2.1 SL(5)047 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Radiograffydd Therapiwtig-Ragnodydd Annibynnol a Deietegydd-Ragnodydd Atodol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2016

### 2.2 SL(5)048 - Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) (Diwygio) 2016

2.0a Ystyriodd y Pwyllgor yr offerynnau ac roedd yn fodlon â hwy.

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): Gohebiaeth gyda'r Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3.1a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

### 3.2 Gohebiaeth gan y Llywydd: Y diweddaraf ar Senedd@Casnewydd

3.2a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

### 3.3 Bil Cymru: Gohebiaeth gan Brif Weinidog Cymru at Lywodraeth y DU ynghylch cymal 60 o Fil Cymru

3.3a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Gohebiaeth ddrafft i'w gytuno

### 5.1 Ymateb i'r alwad am dystiolaeth gan Bwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi: Dirprwyo pwerau

5.1a Cytunodd y Pwyllgor ar yr ohebiaeth ddrafft.

### 5.2 Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru): Gohebiaeth at Y Pwyllgor Busnes ynghylch y weithdrefn gadarnhaol dros dro

5.2a Cytunodd y Pwyllgor ar yr ohebiaeth ddrafft.

## 6 Y diweddaraf ar Fil Cymru

6.1 Derbyniodd y Pwyllgor y manylion diweddaraf ar Fesur Cymru a cytunodd i ysgrifennu i Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

## 7 Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: Y flaenraglen waith

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor ei flaenraglen waith.

## 8 Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: Cyfleoedd ymgysylltu â'r Pwyllgor

8.1 Ystyriodd y Pwyllgor ei strategaeth o ran ymgysylltu.

## 9 Llais cryfach i Gymru: ymgysylltu â San Steffan a'r sefydliadau datganoledig: Y diweddaraf ynghylch yr ymchwiliad

9.1 Ystyriodd y Pwyllgor ei ddull o gynnal ei ymchwiliad.